# CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo Dydd Mawrth, 21 Mai 2024 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Jason McLellan, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd; Gill German, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd; Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol; Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant, ac Emrys Wynne, Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Pauline Edwards, Jon Harland, Hugh Irving, Alan James, Brian Jones a Terry Mendies

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (GB); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS), Llywodraethu a Busnes / Swyddog Monitro (GW), a’r Amgylchedd a’r Economi (TW); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyllid ac Archwilio (LT), Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (EJ), Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai (AL), Uwch Swyddog - Cynllunio Strategol a Thai (SL), a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ a NPH [Gweddarlledwr])

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2024.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2024 a’u cadarnhau fel cofnod cywir.*

## 5 CANLYNIAD ADOLYGIAD Y PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU O BENDERFYNIAD Y CABINET YNGHYLCH Y RHAGLEN DREIGL CYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes fod y penderfyniad a wnaethpwyd gan y Cabinet ar 23 Ebrill 2024 ynghylch y Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy wedi cael ei alw i mewn ac wedi ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar 16 Mai 2024.

Canlyniad yr adolygiad o benderfyniad y Cabinet oedd peidio â chyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet gan olygu na fyddai'r penderfyniad yn newid ac y bydd yn cael ei weithredu.

***PENDERFYNWYD*** *nodi canlyniad yr adolygiad o benderfyniad y Cabinet yn ymwneud â Chymunedau Dysgu Cynaliadwy - Rhaglen Dreigl.*

**6 ASESIAD DRAFFT O'R FARCHNAD DAI LEOL (LHMA)**

Yn absenoldeb y Cynghorydd Rhys Thomas, bu i'r Arweinydd, y Cynghorydd Jason McLellan, gyflwyno'r adroddiad a'r Asesiad Drafft o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) ar gyfer Sir Ddinbych a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno'r asesiad i Lywodraeth Cymru.

Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) yn archwilio'r angen/galw am dai nawr ac yn y dyfodol yn Sir Ddinbych ac mae'n rhan allweddol o'r dystiolaeth sy'n cefnogi polisïau gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol a'r Strategaeth Tai a Digartrefedd. Roedd yn ofyniad statudol i'r Cyngor adolygu anghenion o ran tai o bryd i'w gilydd ac mae'r LHMA wedi ei ddatblygu yn seiliedig ar ganllawiau a methodoleg pecyn gwaith Llywodraeth Cymru i sicrhau dull cyson ar draws bob awdurdod lleol yng Nghymru.

Roedd y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai ac Uwch Swyddog - Cynllunio Strategol a Thai yn bresennol. Cynghorwyd y Cabinet fod yr LHMA am gyfnod o 15 mlynedd gydag adolygiad llawn bob 5 mlynedd a diweddariad rhwng blwyddyn 2 a 3. Roedd yr LHMA yn darparu tystiolaeth allweddol ar gyfer nifer o feysydd o waith y Cyngor ac roedd yn seiliedig ar ddata, yn darparu tystiolaeth i gefnogi creu polisi wrth symud ymlaen. Roedd yn cynnwys 10 o ardaloedd marchnad dai a ddiffiniwyd a bu ymgysylltu eang â budd-ddeiliaid wrth ei ddatblygu. Hysbyswyd y Cabinet ynglŷn â'r canfyddiadau, yn gryno -

- roedd y mwyafrif o'r angen o ran tai o ganlyniad i ôl-groniad o'r angen presennol a dim ond rhan fechan oherwydd twf y boblogaeth
- roedd y mwyafrif o'r angen ar gyfer tai rhent cymdeithasol ac eiddo llai 1 neu 2 ystafell wely gan fod aelwydydd 1 neu 2 unigolyn yn cynrychioli 70% o boblogaeth Sir Ddinbych
- roedd materion fforddiadwyedd ar draws y rhan fwyaf o ddeiliadaeth tai ac roedd diffyg tai ar gael yn fater allweddol o ganfuwyd, yn arbennig y rhai sydd ar gael i'w rhentu
- roedd angen 400 o gartrefi fforddiadwy fesul blwyddyn am y 5 mlynedd gyntaf o'r LHMA, ar y sail y dylid bodloni'r angen presennol o fewn y 5 mlynedd gyntaf er bod cwestiwn ynghylch a oedd hynny'n gyraeddadwy ai peidio

- roedd angen 153 o gartrefi fforddiadwy fesul blwyddyn am gyfnod 15 mlynedd yr LHMA ac felly roedd llawer o waith yn digwydd o ran darparu tai fforddiadwy ar safleoedd datblygu, gan ail-ddefnyddio eiddo gwag, a ffyrdd eraill amrywiol o gynyddu cyflenwad
- ni fu i'r LHMA osod y targed tai fforddiadwy ar gyfer y Cynlluniau Datblygu Lleol ond roedd yn rhan o'r dystiolaeth gyffredinol ar gyfer y CDLl.

Bu i'r Cabinet ystyried yr adroddiad cynhwysfawr, gan nodi'r broses ddynodedig, canfyddiadau allweddol ac allbynnau o'r asesiad. Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â'r hyder yn y ffigyrau a gynhyrchwyd, cymysgedd tai'r farchnad agored yn y dyfodol, bodloni'r angen am 400 o gartrefi fforddiadwy, ac ail-ddefnyddio eiddo gwag.

Ymatebodd y Swyddogion i gwestiynau fel a ganlyn -

- cyfeiriwyd at y cyfoeth o ddata a chymhlethdod y model a soniwyd am y pedwar senario rhagolwg tai gwahanol a ddefnyddiwyd, gan ddefnyddio prif ragamcan Llywodraeth Cymru i gefnogi ffigwr angen o ran tai LHMA. Roedd y ffigwr prif ragamcan o 3165 o gartrefi yn debyg i ofyniad y CDLl ar gyfer 3275 o gartrefi felly roedd hyder yn y ffigyrau hynny o ystyried y cysondeb rhwng y ddau a'r broses gadarn a'r wybodaeth fanwl a oedd yn sail i'r LHMA.
- o ran y cymysgedd y farchnad a awgrymwyd roedd gwahaniaeth rhwng yr angen a'r dyhead, ond y nod oedd darparu hyblygrwydd yn y farchnad dai o ystyried y dyhead am ystafell sbâr neu le astudio ac o ystyried yr anawsterau ar hyn o bryd i symud rhwng gwahanol ddeiliadaeth ac eiddo oherwydd diffyg lleoedd ar gael. Roedd cyfuno'r eiddo 1 a 2 ystafell wely yn cynnig yr hyblygrwydd hynny ac yn cydnabod nad oedd llawer o angen ar gyfer eiddo 1 ystafell wely
- yn cadarnhau y byddai darparu 400 o dai fforddiadwy yn cael ei wneud mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys tai newydd, ail-ddefnyddio eiddo gwag a chaffael eiddo sy'n bodoli. Roedd gan Sir Ddinbych hanes da o ddarparu tai fforddiadwy, yr uchaf yng Ngogledd Cymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ac yn 2023/24 dyrannwyd £10 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru i Sir Ddinbych i ddarparu tai fforddiadwy gyda swm tebyg (£9 miliwn) ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. O ystyried yr hanes da hwn mae Sir Ddinbych hefyd wedi cael arian tuag at ddiwedd y flwyddyn (tanwariant o awdurdodau lleol eraill) gyda £800,000 ychwanegol yn cael ei ddyrannu yn 2023/24 ar gyfer darparu tai fforddiadwy.
- Roedd 70% o aelwydydd yn rhai 1 neu 2 unigolyn a oedd yn un rheswm pam fod cymaint o alw am eiddo llai 1 a 2 ystafell wely. Roedd yr LHMA yn darparu dadansoddiad o angen yn ôl ardal a maint marchnad dai leol felly er bod y galw wedi ei ledaenu ar draws y sir, roedd yr angen mwyaf am eiddo 1 a 2 ystafell wely yn ardal marchnad dai Rhuddlan/Dyserth heb unrhyw angen dybryd yn y Rhyl, Rhuthun, Dinbych a Llangollen. Fodd bynnag, roedd hynny'n adlewyrchu'r cyflenwad tai presennol yn yr ardaloedd hynny gan gynnwys eiddo llai ar gyfer rhent cymdeithasol ac roedd y model yn tybio lefel o drosiant ac felly cyflenwad o'r eiddo hynny yn yr ardaloedd hynny
- roedd y ffigyrau 1 a 2 ystafell wely yn cynnwys eiddo mewn cynlluniau tai gofal ychwanegol ac roedd lefel dda o alw am dai gofal ychwanegol a oedd yn boblogaidd iawn, mantais arall oedd y posibilrwydd y byddai'n rhyddhau tai eraill
- achub morgais (i atal colli eiddo ble bynnag fo modd) wedi ei restru fel un o'r 13 blaenoriaeth strategol allweddol ar gyfer tai fforddiadwy ac er nad oedd llawer

wedi dod trwy'r system roedd modd trwy landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i helpu i gefnogi pobl mewn anhawster gyda'u morgeisi trwy gyllid gan Lywodraeth Cymru
- roedd rhywfaint o drafodaeth ynglŷn â'r heriau o ail-ddefnyddio eiddo gwag gyda chynllun cyflawni cartrefi gwag i nodi'r amrywiol gamau gweithredu/gweithgareddau gwahanol i fynd i'r afael â'r mater a swyddog cartrefi gwag dynodedig. Tra bod y Cyngor wedi perfformio'n weddol dda wrth ail-ddefnyddio eiddo gwag roedd problem o ran eiddo gwag hirdymor ac mae'r ffigwr wedi parhau'n gyson dros amser, ond roedd camau gweithredu rhagweithiol a dull holistig yn cael eu cyflawni a gydnabuwyd gan y Cabinet ynghyd â'r gwaith caled cysylltiedig
- tybiwyd y byddai'r ôl-groniad o angen presennol yn cael ei ddiwallu o fewn 5 mlynedd a oedd yn annhebygol o ystyried fod yr holl dai a adeiladwyd yn gyfwerth â thua 250 o gartrefi fesul blwyddyn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Brian Jones, bu i swyddogion gadarnhau fod gwaith yn parhau ar y CDLl newydd trwy'r Grŵp Cynllunio Strategol a oedd yn adolygu'r dystiolaeth ac yn cynnal yr ymchwil ac yn diwygio polisïau. Parheir i aros am ganllawiau llifogydd allweddol gan Lywodraeth Cymru a oedd yn cael effaith ar yr amserlen darparu ac yn achosi rhywfaint o oedi. Darparwyd mwy o fanylion am y Grŵp Cynllunio Strategol gyda gwahoddiad agored i bob aelod i fynychu a chyfranogiad sylweddol Grwpiau Ardal yr Aelodau yn y broses honno.

Bu i'r Cabinet gydnabod y gwaith caled a'r cymhlethdodau wrth ddatblygu'r LHMA a diolchwyd i swyddogion am y gwaith caled.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

(a) *cymeradwyo Asesiad Drafft o Farchnad Tai Lleol Sir Ddinbych i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru a*

(b) *dirprwyo awdurdod i Aelodau Arweiniol Tai a Chymunedau i gytuno ar unrhyw fân newidiadau golygyddol sydd eu hangen i'r Asesiad Drafft o'r Farchnad Dai Leol, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.*

## 7 CYNLLUNIAU HIRDYMOR AR GYFER TREFI: Y RHYL

Cyflwynodd y Cynghorydd Jason McLellan yr adroddiad ynglŷn â'r gronfa £20 miliwn a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer y Rhyl, rhoddodd ychydig o gefndir i'r adroddiad, a gofynnodd am gefnogaeth y Cabinet i'r ymateb arfaethedig i'r camau gweithredu sydd eu hangen.

Mae'r adroddiad yn nodi'r prif delerau ac amodau ar gyfer yr £20 miliwn o gyllid a gyhoeddwyd ar gyfer y Rhyl fel rhan o fenter Cynlluniau Hirdymor ar gyfer Trefi a rhaglen Ffyniant Bro Llywodraeth y DU. Byddai cyllid yn cael ei ddyfarnu i'r Cyngor a fyddai'n gyfrifol am y cyllid ac am gyflwyno'r cynllun. Roedd angen cyflawni rhai gweithredoedd erbyn 3 Mehefin 2024 (dyddiad terfynol diwygiedig o 1 Mehefin fel nodwyd yn yr adroddiad) megis penodi Cadeirydd y Bwrdd Tref ynghyd â chyflwyno Bywgraffiad y Cadeirydd, Strwythur y Bwrdd, Cylch Gorchwyl, Polisi Gwrthdaro Buddiannau, a Ffiniau Tref. Er y croesawyd yr arian roedd yr amserlen yn heriol a

gofynnwyd am gymeradwyaeth y Cabinet i ddirprwyo'r tasgau hynny i'r Swyddog Arweiniol a'r Arweinydd/Aelod Arweiniol i gyrraedd dyddiad terfynol o ran cyllid. Rhoddwyd manylion y camau gweithredu dilynol sy'n rhaid i'r Bwrdd eu cyflawni cyn 1 Tachwedd.

Bu i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Economi a'r Amgylchedd ymhelaethu ar gynnydd a'r gwaith a wnaed hyd yma i gyflawni'r camau gweithredu angenrheidiol erbyn 3 Mehefin ac i sicrhau'r cyllid a oedd yn ymwneud yn bennaf â threfniadau a thasgau gweinyddol, gan gynnwys cyfweliadau i benodi Cadeirydd y Bwrdd yn ddiweddarach yr wythnos honno, a chynrychiolaeth ac aelodaeth y Bwrdd. Roedd gwaith i'r ail ddyddiad terfynol o 1 Tachwedd yn ymwneud â'r weledigaeth hirdymor (10 mlynedd) ar gyfer y dref a chynllun cyflawni 3 mlynedd yn seiliedig ar flaenoriaethau pobl leol ac roedd y buddsoddiad a'r adfywio yn alinio â thair thema allweddol. Byddai'r dasg honno yn golygu llawer o waith ymgysylltu ac roedd arian ychwanegol ar gael gan Lywodraeth y DU ar gyfer hynny (ar wahân i'r gronfa £20 miliwn). Ychwanegodd yr Arweinydd fod llawer o waith wedi ei wneud mewn cyfnod byr a mynegodd ei ddiolch i bawb a oedd yn rhan o'r broses honno.

Roedd y Cabinet yn croesawu'r arian ychwanegol ar gyfer y Rhyl a thrafodwyd amrywiol agweddau ar yr adroddiad gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Economi a'r Amgylchedd.

Roedd prif feysydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar y canlynol -

- nodwyd fod rhaid i weledigaeth a blaenoriaethau'r dref ar gyfer buddsoddiad ac adfywio fod wedi eu halinio â'r themâu o (1) ddiogelwch, (2) strydoedd mawr, treftadaeth ac adfywio, a (3) chludiant a chysylltedd a oedd yn themâu eithaf eang ac yn addas ar gyfer y Rhyl - roedd gweledigaeth eisoes ar gyfer y Rhyl a fyddai'n cael ei hadolygu ar y cyd â datblygiad y weledigaeth hirdymor newydd er mwyn cysylltu ag un ddogfen gydlynol.
- roedd rhywfaint o drafodaeth ynglŷn â'r cysyniad fod y Rhyl yn cael ei flaenoriaethu o flaen ardaloedd eraill yn y sir ar gyfer buddsoddiad, a oedd hefyd wedi ei adlewyrchu yn y Rhyl gyda rhai yn teimlo fod mwy o arian yn cael ei wario yn Rhuthun, a derbyniwyd fod angen i'r Cyngor fod yn glir wrth gyfathrebu gyda'r cyhoedd, er bod yr arian yn benodol ar gyfer y Rhyl, fod buddsoddiad yn cael ei wneud ar draws y sir gydag arian ffyniant bro ar gyfer De Clwyd a Gorllewin Clwyd yn ogystal â Dyffryn Clwyd ac arian ffyniant cyffredin ar draws y sir. Roedd y Rhyl yn denu buddsoddiad ychwanegol oherwydd ei heriau economaidd-gymdeithasol a'i bod yn cynnwys dwy o'r wardiau mwyaf difreintiedig yng Nghymru a bod buddsoddiad hefyd yn creu buddion cadarnhaol ar gyfer gweddill y sir. Roedd swyddogion yn mynd i Grwpiau Ardal yr Aelodau unigol gyda chynlluniau tref yn nodi prosiectau sydd wedi eu cyflawni a'r rhai a gynlluniwyd ar gyfer y dyfodol gyda buddsoddiad cymesur ar draws y sir. Fodd bynnag, o ystyried barn y cyhoedd teimlwyd y gallai'r Timau Cyfathrebu wneud gwaith pellach i ymdrin ag unrhyw gamsyniadau
- cafodd y gwaith a wnaed gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Economi a'r Amgylchedd ar ddatblygu'r camau gweithredu angenrheidiol ei gwestiynu o ystyried blaenoriaethau/galwadau eraill o ran amser gan gynnwys gwaith ar gynlluniau trawsnewid ac arbedion. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol

fod ganddo nifer o flaenoriaethau a bod angen sicrhau fod y gwaith a wneir ar bob un o’r blaenoriaethau hyn yn gymesur i’r dasg dan sylw. Roedd rhywfaint o arian ychwanegol ar gael gan Lywodraeth y DU ar gyfer y cam cychwynnol o sefydlu’r Bwrdd ac mae ymgynghorwyr wedi eu comisiynu i wneud rhywfaint o’r gwaith hwnnw. Mae’n annhebygol y gellir hawlio am gyllid ar gyfer amser y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar y prosiect, ond gellir edrych ymhellach ar y posibilrwydd

- roedd y canolbwynt presennol ar y set gyntaf o weithredoedd i gyrraedd y dyddiad terfynol o ran cyllid a’r weledigaeth hirdymor ar gyfer y dref a byddai ymgysylltiad â phobl leol yn cael ei ddatblygu yn y cam nesaf. Teimlwyd fod angen i waith cymunedol gael ei gyfeirio gan y Bwrdd ar ôl ei sefydlu a byddai cyfansoddiad y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o’r gymuned
- amlygwyd fod llawer iawn o waith i’w wneud a chwblhau’r tasgau angenrheidiol i gyrraedd dyddiad terfynol o 3 Mehefin a sicrhau’r arian ynghyd â’r gwaith ychwanegol sydd i’w wneud erbyn y dyddiad terfynol o 1 Tachwedd. Roedd llawer o waith wedi ei wneud yr un pryd er mwyn penodi Cadeirydd y Bwrdd ac i gael cynrychiolaeth briodol ar y Bwrdd i gyflawni ar gyfer y Rhyl a sicrhau diwallu gofynion dyddiad terfynol o ran cyllid.

Agorodd yr Arweinydd y drafodaeth i aelodau nad oedd yn rhan o’r Cabinet ac roedd cefnogaeth eang i’r buddsoddiad yn y Rhyl ac effaith gadarnhaol y cyllid hwnnw ar yr ardal ehangach. Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â threfniadau llywodraethu a gweithredol y Bwrdd a gofynnwyd am sicrwydd o ran cefnogaeth y gymuned fusnes a chynrychiolaeth briodol er mwyn cyflawni llwyddiant masnachol ynghyd ag ymgysylltu â'r gymuned o’r cychwyn.

Ymatebodd yr Arweinydd a swyddogion i’r cwestiynau/sylwadau fel a ganlyn –

- byddai’r cyllid yn cael ei ddyfarnu i’r Cyngor a fyddai’n gyfrifol am y cyllid ac am gyflwyno’r cynllun
- roedd gwaith yn parhau ar y trefniadau llywodraethu a materion megis cylch gorchwyl, strwythur a chyfansoddiad y Bwrdd - byddai hefyd angen i’r Bwrdd gymryd safbwynt a’i osod yn ei weithrediad/llywodraethu yn y dyfodol.
- efallai y bydd posib defnyddio cyllid i gael arian ychwanegol gan ffrydiau ariannu eraill, ond byddai’n dibynnu ar feini prawf a chymhwysedd.
- gan nad oedd yn bosib ateb bob cwestiwn ynglŷn â’r trefniadau llywodraethu ar hyn o bryd awgrymwyd y gellid dod ag adroddiad yn ôl i’r Cabinet pan fydd y trefniadau hyn wedi eu cadarnhau ar ôl 3 Mehefin
- y dewis fyddai creu cyfansoddiad y Bwrdd a threfniadau llywodraethu cyn penodi Cadeirydd y Bwrdd ond nid oedd y gofynion yn cefnogi’r drefn honno o ddigwyddiadau ac roedd yn amserlen hynod o heriol
- yr awgrym yn y canllawiau cyfredol, a allai newid, oedd na fyddai gan y Bwrdd ei endid cyfreithiol ei hun o ystyried mai’r Cyngor oedd y corff atebol
- cydnabod fod gan y gymuned fusnes swyddogaeth allweddol i’w chwarae yn y broses a rhoddwyd sicrwydd y byddai’r sector yn cael ei gynrychioli ar y Bwrdd
- cadarnhau fod sgyrsiau yn parhau gydag eraill mewn sefyllfa debyg o ran Byrddau Trefi i sicrhau bod arfer gorau’n cael ei rannu, a gwersi a ddysgwyd
- roedd hyder y penodir Cadeirydd y Bwrdd yn dilyn y broses gyfweld.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at argymhellion yr adroddiad a'r newid i'r dyddiad terfynol o 1 Mehefin i 3 Mehefin ym mharagraff 3.1.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Amgylchedd a'r Economi a'r Arweinydd/Aelod Arweiniol Twf Economaidd a Threchu Amddifadedd ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol i Lywodraeth y DU er mwyn bodloni gofynion y gronfa erbyn y dyddiad terfynol, sef 3 Mehefin 2024.*

## 8 RHAGLEN WAITH Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r ychwanegiadau canlynol -

- Diweddariad ar Strategaeth a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 – 2027/28 - i'w ychwanegu i fis Gorffennaf, Hydref ac Ionawr
- Gosod Cyllideb Refeniw 2025/26 - i'w ychwanegu i fis Ionawr
- Cynllun Cyfalaf 2025/26 – 2027/28 - i'w ychwanegu i fis Ionawr
- Gosod Cyllideb Refeniw a Threth y Cyngor 2025/26 - i'w ychwanegu i fis Chwefror

Byddai'r Arweinydd yn trafod gyda'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Yr Economi a'r Amgylchedd am y posibilrwydd o ddod ag adroddiad diweddaru i'r Cabinet ar y Cynllun Hirdymor ar gyfer Trefi: y Rhyl fel y trafodwyd yn gynharach ar y rhaglen.

***PENDERFYNWYD*** *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet*.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30pm.